UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

C2/09

Cylchlythyr Cynrychiolwyr

Annwyl Gynrychiolydd,

Dyma fydd y pecyn olaf cyn diwedd y flwyddyn ysgol. Diolch yn fawr iawn i chi am eich cefnogaeth i'r Undeb yn ystod y flwyddyn ysgol a aeth heibio. Dymunwn wyliau haf hapus a phleserus i chi a gweddill aelodau UCAC yn yr ysgol / coleg.

Cofion gorau,

Rebecca Williams (Swyddog Polisi) ac *Elaine Edwards* (Ysgrifennydd Cyffredinol)

Mae'r pecyn yn cynnwys:

- **Yr Athro:** Dyma'r ddau rifyn diweddaraf; gofynnwn i chi eu gosod mewn man amlwg yn ystafell yr athrawon.
- **Taflenni Gwybodaeth:**
  - Amser Cynllunio, Paratoi ac Asesu
  - Defnydd Cyfrifol a Diogel o E-Dechnoleg
  - Oriau Cyfeiriedig (*Directed Time*)

  Gan ei fod yn fater o bwys mawr i bob athro, gofynnwn i chi dynnu sylw'ch Pennaeth, a chydweithwyr eraill (hyd yn oed os nad ydynt yn aelodau) at y daflen 'Defnydd Cyfrifol a Diogel o E-Dechnoleg'.
- **Cerdyn Post:** i'w anfon at y Gweinidog Addysg, yn rhan o ymgyrch UCAC dros ariannu addysg yn deg; gweler drosodd am ragor o wybodaeth.
- **Blwydd-ddalen UCAC:** i'w arddangos yn ystafell yr athrawon.

Ymgyrch Ariannu Addysg: arwyddwch y cerdyn post heddiw!

Yn ystod y Gynhadledd Flynyddol eleni, lansiodd UCAC ymgyrch i bwyso ar Lywodraeth y Cynulliad i ariannu cyfundrefn addysg Cymru'n deg.

Gofynnwn i chi annog yr aelodau yn eich ysgol / coleg (a chydweithwyr eraill) i arwyddo a phostio un o'r cardiau er mwyn dangos i'r Gweinidog faint o gefnogaeth sydd i'r ymgyrch. Mae cerdyn wedi'i amgáu gyda'r cylchlythyr hwn, ac roedd dau ohonynt yn amgaeedig gyda rhifyn diweddaraf Yr Athro.

Wrth gefnogi'r ymgyrch, byddwch yn helpu i ddiogelu swyddi athrawon a darlithwyr, ac i sicrhau bod adnoddau addas a digonol ar gael i gyflawni gofynion polisïau fel y Cyfnod Sylfaen a Llwybrau Dysgu 14-19.

Rhowch wybod os oes angen rhagor o gopïau o'r cerdyn post.

Eisteddfod Genedlaethol Meirion a'r Cyffiniau

Bydd UCAC yn cynnal cyfarfod cyhoeddus, **dydd Mawrth 4 Awst, 11.00-12.30** ym Mhabell y Cymdeithasau, ar y thema 'Y Defnydd o Dechnoleg Newydd mewn Ysgolion.' Y siaradwyr gwadd fydd: Sue Davies (Heddlu Gogledd Cymru), Dafydd Watcyn Williams (Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu) a Karen Roberts (Ofcom).

Mae croeso mawr i bawb!

Cofiwch hefyd taro draw am baned a sgwrs i stondin UCAC ar faes yr Eisteddfod.

Cynrychiolwyr newydd

Mae eich gwaith chi fel cynrychiolydd yn hanfodol i UCAC a'i aelodau. Mae'n bwysig felly fod gennym gynrychiolydd ym mhob ysgol. Felly cofiwch, os ydych chi'n symud ysgol neu'n rhoi'r gorau i'r cyfrifoldeb, trefnwch gyfarfod yn yr ysgol i ddewis olynydd, a rhowch wybod i UCAC pwy fydd y person hwnnw.

Aelodau'n symud

Mae'n siŵr y byddwch yn ffarwelio â rhai o'ch cydweithwyr o fewn yr wythnosau nesaf. A wnewch chi atgoffa'r rheiny sy'n aelodau o UCAC i hysbysu'r Undeb os bydd eu manylion personol yn newid dros wyliau'r haf – er enghraifft os byddant yn newid swydd, yn symud i ysgol newydd, neu'n symud tŷ.

Mae'n bwysig fod gan UCAC gronfa ddata cywir o'i aelodau, a dim ond gyda'ch cymorth chi y mae hynny'n bosib.

Pryderon? Cysylltwch â'r Undeb

Mae Swyddogion UCAC yn cwrdd yn gyson â'r Gweinidog Addysg, y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, a Swyddogion APADGOS. Felly cofiwch os oes unrhyw fater sy'n peri gofid, pryder, neu ddicter, rhowch wybod, a byddwn yn gallu codi'r mater ar eich rhan.

Tynnir eich sylw at dudalen 24-5 yn y Blwyddlyfr cyfredol sy'n nodi'r amodau o ran cynnig cyngor a chymorth i aelodau. Os bydd aelod yn dod atoch i gael cyngor ac arweiniad ar fater sy'n ymwneud â'i waith, dylech ei gynghori i gysylltu â'r Swyddog Maes perthnasol:

- Swyddog Maes y Gogledd: Eryl Owain eryl@athrawon.com / 01970 639950
- Swyddog Maes y De: Dilwyn Roberts-Young dilwyn@athrawon.com / 01970 639950

Pwysleisir na ddylai unrhyw aelod gysylltu â chyfreithiwr heb, yn gyntaf, siarad ag un o Swyddogion UCAC.

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU
ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@athrawon.com